Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru

National Independent Safeguarding Board Wales

# Cyfarfod y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

**Cofnodion y cyfarfod**

**Dyddiad:** 13 Awst 2025 **Amser:** 09.30am Cyfarfod Teams

**Yn bresennol:**

- Tony Young (Cadeirydd y Bwrdd Cenedlaethol)
- Lin Slater (Is-gadeirydd y Bwrdd Cenedlaethol)
- Carys James (Aelod o'r Bwrdd Cenedlaethol)
- Artie Meakin (Aelod o'r Bwrdd Cenedlaethol)
- Des Mannion (Aelod o'r Bwrdd Cenedlaethol)
- Nicola Evans (Dirprwy Gyfarwyddwr, Addysg, Llywodraeth Cymru)
- Taryn Stephens (Dirprwy Brif Swyddog Gofal Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru)
- Emma Logan (Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd Cenedlaethol)

**Eitemau ar yr agenda a chrynodeb manwl:**

**1. Croeso ac ymddiheuriadau:**

Dechreuodd y cyfarfod gyda gair o groeso gan y Cadeirydd, a nodwyd yr ymddiheuriadau.

**2. Gwrthdaro o ran buddiannau:**

Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau ddatgan unrhyw wrthdaro o ran buddiannau. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau.

**3. Cofnodion a chamau gweithredu'r cyfarfod blaenorol:**

Cafodd cofnodion y cyfarfod blaenorol eu hadolygu, cawsant eu cymeradwyo gyda mân newidiadau, a barnwyd eu bod yn addas i'w cyhoeddi.

**4. 10.30: Nicola Evans – Diweddariad Addysg**

Roedd y cyfarfod yn cynnwys diweddariad cynhwysfawr am ddiogelu ym maes addysg, a oedd yn canolbwyntio ar y strwythurau presennol, yr heriau o ran casglu data, a'r gwaith o hybu cydweithio ar draws asiantaethau. Cydnabu'r aelodau bwysigrwydd

mentrau ar y cyd i wella mesurau diogelu mewn lleoliadau addysgol, a buont yn trafod yr angen am oruchwyliaeth well ar gyfer plant sy'n cael eu haddysgu gartref, yn enwedig yng ngoleuni cyfyngiadau ar adnoddau a datblygiadau deddfwriaethol sydd ar ddod. Cytunodd y grŵp i egluro arferion casglu data a mynd ar drywydd setiau data wedi'u diweddaru, gan bwysleisio'r angen i gydweithredu'n barhaus â'r llywodraeth a phartneriaid ymchwil er mwyn mynd i'r afael â bylchau ym maes diogelu, yn enwedig o ran addysg ac addysgu gartref.

**5.11.15: Taryn Stephens, Llywodraeth Cymru**

Argymhellodd Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd Cenedlaethol y dylid diffodd y cyfleuster trawsgrifio ar gyfer trafodaeth Taryn oherwydd bod y pwnc yn ymwneud â gwybodaeth sensitif sy'n gysylltiedig â datblygiadau Gogledd Cymru, a oedd yn awgrymu angen am gyfrinachedd.

**6. Atgyfeirio Integredig Cymru Gyfan – cynllun peilot**

Bu'r Bwrdd yn ystyried y cynllun peilot arfaethedig ar gyfer Atgyfeirio Integredig Cymru Gyfan, sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd gan y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol. Nodwyd bod ffynonellau priodol o gyllid yn cael eu harchwilio, a bod y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol wrthi'n ymchwilio i sawl dull ariannu posibl. O gofio pwysigrwydd y prosiect, mynegodd y Bwrdd gefnogaeth gref dros ddarparu cyllid a chytunodd i ystyried opsiynau ar gyfer cyfrannu at weithredu'r prosiect.

**7. Diweddariad ynghylch yr Adolygiad Thematig o Adolygiadau Ymarfer Plant**

Mae'r Adolygiad Thematig wedi cael ei gymeradwyo'n ffurfiol a'i dderbyn gan Brifysgol Metropolitan Manceinion. Bydd diweddariad ynghylch dechrau'r gwaith hwn yn cael ei ddarparu maes o law.

**8. Diweddariad ynghylch y gyllideb**

Bu'r Bwrdd yn trafod costau cynyddol rheoli'r wefan, gan bwysleisio pwysigrwydd cynllunio'n strategol er mwyn cynnal disgyblaeth ariannol. Bu'n archwilio dulliau posibl o symleiddio diweddariadau i'r wefan a chryfhau seiberddiogelwch, a chafodd terfynau amser contractau eu hystyried yn ogystal â'r angen i sicrhau bod strategaethau cyfathrebu digidol yn cyd-fynd â'r adnoddau presennol. Rhoddodd y grŵp sylw hefyd i bryderon am negeseuon ebost sy'n gwe-rwydo ac yn sgamio, gan bwysleisio'r rheidrwydd i gael mesurau cryf ar gyfer diogelwch data a chael prosesau trylwyr ar gyfer sefydlu aelodau newydd. Cytunwyd y byddai cynigion ynghylch seiberddiogelwch a'u heffeithiau cyllidebol yn cael eu hadolygu'n fwy manwl yn ystod y trafodaethau a fydd yn digwydd cyn bo hir am y gyllideb.

**9. Diweddariad ynghylch y Strategaeth Gyfathrebu**

Bu'r Bwrdd yn adolygu cynnydd parhaus o ran y Strategaeth Gyfathrebu, a oedd yn cynnwys diweddariadau o weithgareddau comisiynu blaenorol, canlyniadau o'r diwrnod datblygu, ac ystyriaethau'n ymwneud â'r gwaith o reoli'r wefan. Cafodd costau cynyddol rheoli'r wefan eu trafod, a phwysleisiwyd yr angen i gynllunio'n strategol ac alinio adnoddau. Er mwyn hybu cyfathrebu ac adrodd yn allanol, cytunodd y Bwrdd i gofnodi cyflawniadau diweddar er mwyn eu cynnwys yn yr adroddiad blynyddol ac i baratoi briff ar gyfer cymorth allanol o ran cyfathrebu.

**10. Diweddariadau gan y Byrddau Rhanbarthol / Diweddariadau gan Randdeiliaid – y Gwasanaeth Lles Addysg, Arolygiaeth Gofal Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Estyn, Swyddfa Archwilio Cymru, Comisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, y Fframwaith Amddiffyn Pobl Agored i Niwed, y Fforwm Gwrthgaethwasiaeth, Grŵp Cynllunio'r 4 Gwlad.**

Cafodd y Bwrdd ddiweddariadau ynghylch ymdrechion cydweithredol gyda phartneriaid allanol, a oedd yn canolbwyntio ar ddatblygiadau mewn gwasanaethau mabwysiadu ac ar gynlluniau gweithredu diogelu. Cafodd heriau allweddol eu nodi yng nghyswllt gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, capasiti rhanbarthol o ran adnoddau, a chysondeb trefniadau rhannu gwybodaeth. At hynny, trafodwyd cynnydd o ran mentrau sefydlogrwydd cynnar ac o ran canlyniadau arolygiadau diweddar.

**11. Unrhyw fater arall**

**Gwefan y Bwrdd Cenedlaethol**

Mae'r Bwrdd yn bwriadu cydlynu hyfforddiant ynghylch seiberddiogelwch a OneNote, sicrhau bod mentrau o ran y wefan a chyfathrebu'n cyd-fynd â'r adnoddau sydd ar gael, ac adolygu cynigion o ran seiberddiogelwch yn ystod y trafodaethau a fydd yn digwydd cyn bo hir am y gyllideb, mewn ymateb i bryderon am ddiogelwch data ac am ymdrechion i we-rwydo.